

## RHAGARWEINIAD

Cafodd y llain garddwriaeth yn Henfaes ei sefydlu'n wreiddiol ar gyfer ffrwythau meddal. Ers hynny mae wedi cael ei helaethu i gynnwys lafant, asbaragws a riwbob. Yn Ebrill 2010 cafodd ei helaethu ymhellach i roi gwely 60m ychwanegol ar gyfer perlyisiau lluosflwydd (mintys, teim, rhosmari a saets). Yr ychwanegiad diweddaraf i'r llecyn yw gwely 60m o berlyisiau unflwydd – rhai wedi eu hau'n uniongyrchol a rhai wedi eu trawsblannu. Nod y daflen hon yw rhoi golwg gyffredinol ar sefydlu'r llain perlyisiau lluosflwydd yn Henfaes.

## PARATOI SAFLE'R CAE

Defaid oedd yn pori ar y llecyn cyn hyn. Y cam cyntaf oedd ffensio'r llain i gadw cwingod a defaid oddi arno. Cafodd y glaswellt ei chwistrellu gyda Glyphosate ganol Chwefror. Yna cafodd ei aredig a'i baratoi ar 11 Mawrth 2010 a'i drin gyda Pirisect (cynhwysyn gweithredol: chlorpyrifos) ar 18 Mawrth er mwyn dileu cynrhon lledr (leatherjackets) cyn belled ag oedd modd. Cafodd y gwely ei gribinio â llaw ddiwedd Ebrill. Ar 16 Mehefin, cyn plannu, rhoddwyd Stomp (cynhwysyn gweithredol: pendimethalin), chwynladdwr gweddilliol, ar y llecyn, ac eithrio'r fan lle bwriedid plannu basil (gan fod basil yn sensitif iddo).

## AMRYWIADAU

Defnyddiwyd yr un amrywiadau o berlyisiau ar gyfer drilio uniongyrchol a thrawsblannu er mwyn cymharu'r ddau dull cynhyrchu.

**Tabl 1: Amrywiadau perlyisiau unflwydd ar gyfer lleiniau perlyisiau Henfaes**

Enw cyffredin	Enw Lladin	Disgrifiad
Parlsley – var Favorit	<i>Petroselinium crispum</i>	Dail persli cyrliog gyda llawer o flas – ddim mor gyrliog dynn â llawer, lliw gwyrdd tywyll
Coriander – var Filtro	<i>Coriandrum sativum</i>	Amrywiad sy'n rhoi cnwd da ac sy'n araf i redeg
Dill – var Fleet	<i>Anethum graveolens</i>	Planhigyn unflwydd gwydn gyda blas had anis amlwg
Chives – var Gedney	<i>Allium schoenoprasum</i>	Planhigyn eilflwydd gwydn a dyfir fel un unflwydd, blas nionyn ysgafn
Basil – var Twenty	<i>Ocimum basilicum</i>	Planhigyn unflwydd gweddol wydn, dail gwyrdd llachar, blas clof cryf

## DRILIO UNIONGYRCHOL

Driliwyd hadau yn y cae gyntaf ar 17 Mehefin. Fe wnaethom ddefnyddio dril hadau llaw (gweler ffig 1) gyda disg 4mm o ddiamedr ar gyfer y basil, cennin syfi a phersli; ac un

5mm o ddiamedr ar gyfer y coriander a'r dil. Roedd yr ail ddrilio ar 1 Gorffennaf. Ar bob achlysur, driliwyd tair rhes tair metr o hyd o bob amrywiad, gyda bwlch o 30cm rhwng y rhesi.

## MODIWLAU HAU

Cafodd un hambwrdd 345 cell o bob perlysiuyn ei hau â llaw ar 17 Mehefin a 6 Gorffennaf i gompost John Innes Rhif 1 . Cadwyd yr hambyrddau hyn mewn tŷ gwyrdr heb ei gynhesu a'u dyfrhau fel roedd ei angen i gadw'r compost yn llaith.

Cafodd y planhigion bychain eu trawsblannu i'r cae ar 20 a 27 Gorffennaf, ac eithrio'r ail heud o bersli a chennin syfi nad oeddent yn ddigon cryf i'w plannu allan bryd hynny.

Cafodd y planhigion bychain eu trawsblannu i'r cae gyda 10cm rhyngddynt yn y rhesi a 30cm rhwng y rhesi.

## RHEOLAETH WEDYN

Mae'r holl blanhigion (a ddriliwyd yn uniongyrchol ac a drawsblannwyd) wedi cael un dogn o wrtaith 21:8:11 ar gyfradd o 50g/m<sup>2</sup>. Caiff y llain ei chwynnu â llaw fel bo'r angen drwy gydol y tymor tyfiant. Caiff y perlysiâu eu tocio fel bo'r angen.

## COSTAU CYNHYRCHU

Drwy gydol y broses rydym wedi monitro'r mewnbynnau (llafur a deunyddiau) yn ymwneud â sefydlu'r llain arddangos. Mae Tablau 2 a 3 isod yn crynhoi'r wybodaeth hon.

**Tabl 2:** brasamcan o **gostau y metr sgwâr** sefydlu perlysiâu unflwydd wedi eu **drilio'n uniongyrchol** yn Henfaes, 2010

Eitem	Uned	Cost uned (£)	Swm	Cost (£/m <sup>2</sup> )	Addasu ar gyfer % llwyddiant
Had					
Persli	kg	70.00	0.001	0.07	
Coriander	kg	17.00	0.001	0.02	
Dil	kg	30.00	0.001	0.05	
Cennin Syfi	kg	51.00	0.001	0.08	
Basil	kg	70.00	0.002	0.14	
Chwynnu (i bob amrywiad)	awr	6.50	0.2	1.30	
<b>Paratoi'r tir</b>					
Pryfleiddiad	litr	10.75	<0.01	0.01	
Rhoi'r pryfleiddiad	awr	7.20	<0.01	0.04	
Trin y tir	awr	22.00	0.01	0.25	
Drilio – amser llafur	awr	6.50	0.20	1.30	
<b>Cyfanswm cost</b>					
Persli				<b>2.97</b>	<b>4.24</b>
Coriander				<b>2.92</b>	<b>2.92</b>
Dil				<b>2.95</b>	<b>3.10</b>
Cennin Syfi				<b>2.98</b>	<b>*5.42</b>
Basil				<b>3.04</b>	<b>methu</b>

\*methiant gyda chennin syfi yn rhannol oherwydd problemau cwningod

Whilst every effort is made to ensure the information provided in this leaflet is correct, CALU cannot be held responsible for the consequences of any actions taken on the basis of its content.

[www.calu.bangor.ac.uk](http://www.calu.bangor.ac.uk)

CALU – Supporting Sustainable Land Use

**Tabl 3:** brasamcan o **gostau y metr sgwâr** sefydlu perlysiâu unflwydd wedi eu **trawsblannu** yn Henfaes, 2010

Eitem	Uned	Cost uned (£)	Swm	Cost (£/m <sup>2</sup> )	Addasu ar gyfer % llwyddiant
Had					
Persli	kg	70.00	0.001	0.01	
Coriander	kg	17.00	0.003	0.05	
Dil	kg	30.00	0.001	0.03	
Cennin Syfi	kg	51.00	0.001	0.05	
Basil	kg	70.00	0.001	0.07	
Hambyrddau modiwl	Yr un	0.50	1	0.50	
Compost	Litr	0.07	3	0.21	
Llafur – hau	awr	6.50	0.03	0.20	
Llafur – monitro/ dyfrhau	awr	6.50	0.05	0.33	
Llafur – plannu allan	awr	6.50	0.3	1.95	
<b>Paratoi'r tir</b>					
Pryfleiddiad	litr	10.75	<0.01	0.01	
Rhoi pryfleiddiad	awr	7.20	<0.01	0.04	
Trin y tir	awr	22.00	0.01	0.25	
<b>Cyfanswm cost Persli</b>				<b>3.50</b>	<b>3.50</b>
<b>Coriander</b>				<b>3.50</b>	<b>3.50</b>
<b>Dil</b>				<b>3.50</b>	<b>*8.75</b>
<b>CenninSyfi</b>				<b>3.50</b>	<b>6.36</b>
<b>Basil</b>				<b>3.57</b>	<b>3.57</b>

\* cafwyd colledion gyda dil oherwydd problemau cwingod, nid problemau planhigion/ymsefydlu

**nb** costau sefydlu yn unig yw'r rhain – NID ydynt yn cynnwys costau cynaeafu

**Ffig 1:** Dril Brush Type – cafwyd ar fenthyg gan Chris Creed